# Cyrchfan Conwy

## Cyfarfod Is-grŵp Rheoli Cyrchfan

## Dydd Llun, 10 Ionawr 2022

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Nigel Treacy (NT) | Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno |
| Glenn Evans (GE) | Gwesty'r Royal Oak (Betws-y-Coed) |
| Angharad Mair Owen (AO) | Parc Gwyliau Tŷ Gwyn |
| Clive Wolfendale (CW) | Adferiad Recovery |
| Emiko Corney (EC) | Bwthyn Gwyliau Swn-y-Dŵr |
| Chris Owens (CO) | Alpine Travel |
| Liam Donnelly (LD) | Gwesty Belmont a Gwesty Llandudno Bay |
| Edward Hiller (EH) | Mostyn Estates Ltd |
| Jules Arrowsmith (JA) | Parc Fferm, Maes Carafanau a Gwersyll Manorafon |
| Tansy Rogerson | Armadillo Events |
| Melissa Esplen-Metcalf (MEM) | Number 18 Conwy |
| Emma-Jane Sutcliffe (EJS) | Canolfan Ddringo The Boathouse |
| Kimberley Edmunds (KE) | The Jester's Tower |
| Caroline Somary (CS) | Sweet Snowdonia |
| Dana Williams (DW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Jon Merrick (JM) | Rheolwr Busnes a Thwristiaeth, CBSC |
| Jasmin Koffler (JK) | Swyddog Prosiect Twristiaeth ac Adfywio, CBSC |
| Kim Nicholls (KN) | Cymryd cofnodion, CBSC |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Louise Jowett /Graham Taylor | Beics Betws |
| Sally Paveley | The Motorsport Lounge |
| David Thornley | Parciau Hamdden Thornley |
| Graham Paul Jones | Grŵp Llandrillo Cymru |
| Tamzyn Lawrence | t-l-c, Betws-y-Coed |

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd JM bawb i gyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Rheoli Cyrchfan. Fe fydd y grŵp yn rhoi sylw i edrychiad a theimlad y sir a sut i fodloni disgwyliadau ymwelwyr.

**2. Trosolwg o Gyrchfan Conwy**

Dechreuodd Cyrchfan Conwy tua 2010. Roedd yn fenter ar draws Gogledd Cymru i sefydlu fforymau ar gyfer busnesau twristiaeth. Conwy oedd un o'r siroedd cyntaf i ddechrau cyfarfod.

Mae pedwar sbardun allweddol yn y Cylch Gorchwyl presennol:

1. Darparu cyfraniad lleol i weithrediad llwyddiannus Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy
2. Cefnogi, monitro ac adolygu Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy
3. Rhoi arweiniad a dylanwadu ar gynllunio twristiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol
4. Darparu'r porth ar gyfer cyfathrebu agored rhwng y fasnach a chyrff cyhoeddus

Mae grŵp Cyrchfan Conwy wedi datblygu'n dda dros y blynyddoedd ac mae wedi cael dylanwad ar Gonwy.

Trwy greu grŵp Cyrchfan Conwy, mae CBSC wedi ceisio rhoi penderfyniadau yn nwylo busnesau twristiaeth. Er enghraifft, cafodd y Cynllun Rheoli Cyrchfan ei ysgrifennu gan Gyrchfan Conwy a'i gymeradwyo gan CBSC.

Mae Cyrchfan Conwy wedi'i ailstrwythuro ar gyfer 2022.

Nigel Treacy yw Cadeirydd prif Grŵp Cyrchfan Conwy. Nid oes Is-gadeirydd wedi'i benodi eto, ond bydd angen dewis un o blith Cadeiryddion y pum is-grŵp.

Mae'r pum grŵp fel a ganlyn:

1. Sgiliau
2. Rheoli Cyrchfan
3. Marchnata
4. Strategaeth/Cynllun Gweithredu
5. Gwybodaeth i Dwristiaid / Cynllun Llysgennad Conwy

Mae tua 16 aelod ym mhob grŵp.

Mae Bwrdd Cyrchfan Conwy hefyd sy'n cynnwys: Cadeirydd, Is-gadeirydd, pum Cadeirydd yr is-grwpiau, cynrychiolydd Croeso Cymru (Andrew Forfar), Aelod Cabinet Datblygu Economaidd a Hamdden CBSC (Cyng Louise Emery) a Rheolwr Twristiaeth CBSC (Jon Merrick)

Bydd Cadeirydd Cyrchfan Conwy hefyd yn rhan o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru, a gaiff ei gynnal gan Croeso Cymru.

**3. Ethol Cadeirydd y Grŵp Sgiliau**

Cafodd Angharad Owen ei hethol yn Gadeirydd yr Is-grŵp Rheoli Cyrchfan.

**4. Cylch Gorchwyl**

GWEITHREDU - Bydd JM yn rhannu prif Gylch Gorchwyl Cyrchfan Conwy gyda'r grŵp hwn.

Bydd angen i'r Is-grŵp Rheoli Cyrchfan ddatblygu eu Cylch Gorchwyl eu hunain.

GWEITHREDU - JM ac AO i ddatblygu Cylch Gorchwyl yn seiliedig ar feysydd allweddol a dosbarthu drafft i'r grŵp.

**5. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol - meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt**

**Sylwadau JM i'r grŵp oedd:**

- Glanweithdra, taclusrwydd, arwyddion, toiledau, gwybodaeth i ymwelwyr, isadeiledd - codi materion a phryderon trwy fonitro
- Mae cyllid y Pethau Pwysig ar fin lansio ar gyfer 2023. Dim ond ALl gaiff gyflwyno cais. Dylai'r grŵp hwn ddylanwadu ar beth rydym ni'n cyflwyno cais amdano, e.e. prosiectau isadeiledd i ddylanwadu ar dwristiaeth. Mae meini prawf ymgeisio ar gael ym mis Ionawr 2022 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw mis Ebrill.

**Sylwadau gan y grŵp**

- **Disgwyliadau** - ydi'r sir yn bodloni disgwyliadau ar hyn o bryd, neu'n rhagori arnynt. Oes angen i ni gael gwaelodlin?
- Mae **arolwg blynyddol i ymwelwyr** a gaiff ei anfon at 50,000-60,000 o ymwelwyr. Fel arfer gofynnir iddynt pam maen nhw'n ymweld ac a yw eu disgwyliadau wedi'u bodloni'n sy'n darparu gwybodaeth dda. Rydym ni'n cael adborth gan fasnach, pobl leol ac ati hefyd. Mae mwy na 7 miliwn o ymwelwyr â'r sir bob blwyddyn. Mae rhywfaint o isadeiledd yn mynd yn hen ac wedi gwisgo. Mae rhywfaint o waith ailwampio wedi dechrau. Mae bylchau o ran darpariaeth. Gallem ni greu ein harolwg ein hunain. GWEITHREDU - JM i rannu'r arolwg diweddaraf i ymwelwyr
- **Perthynas â'r Parc Cenedlaethol** – Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gwneud penderfyniadau strategol ar hyn o bryd. Mae eu rhyngweithio â Gwynedd yn gryf. Mae hyn fel pe bai'n faes amwys o fewn Sir Conwy bob amser. Mae gan Sir Conwy borth i Barc Cenedlaethol Eryri. Dywedodd JM fod Dana Williams o Barc Cenedlaethol Eryri ar y grŵp hwn
- **Twristiaeth Gynaliadwy a Thymhorol** a sut maen nhw'n dod at ei gilydd a sut i gefnogi. Mae gormod o dwristiaeth yng Ngogledd Cymru dros fisoedd yr haf. Fodd bynnag, mae'n anodd denu twristiaid yn y tymor tawel. Dywedodd JM fod twristiaeth gynaliadwy yn flaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg i Gymru. Mae LlC wedi codi'r mater hwn. Mae CBSC yn dilyn briff gwylio a gweld ar hyn o bryd. Mae CBSC am weld cynaliadwyedd, ond maen nhw'n dibynnu ar ymwelwyr dydd. Mae angen i bob is-grŵp feddwl am dwristiaeth gynaliadwy.
- Mae cyfarfod Grŵp Strategaeth Ynni Gogledd Cymru 2023 fory. Byddan nhw'n edrych ar garbon sero, gwefru cerbydau trydan a chysylltu â thwristiaeth. Ni sonnir am lety yn yr adroddiad strategaeth. Mae llawer iawn o ynni'n cael ei golli o'r hen westai Fictoraidd. Mae angen bwrw ymlaen â hyn er mwyn canfod datrysiadau.
- **Offer gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio sy'n eiddo i CBSC** – mae angen mynd i'r afael â'r math hwn o gynaliadwyedd cyn gynted ag sy'n bosibl
- Awgrymwyd eu rhannu'n bynciau allweddol ac edrych arnynt mewn rhagor o fanylder. Er enghraifft:
    - Effaith amgylcheddol
    - Cynaliadwyedd
    - Sbwriel
    - Rheoli ymddygiad ymwelwyr
    - Estheteg – golwg a theimlad yr ardal a sut gellir ei gwella
    - Sut rydym ni'n darparu gwybodaeth – i dwristiaid ac i bobl leol
    - Arwyddion

  - Cyfleusterau
  - Amwynderau / Cludiant
  - Annog manwerthu
  - Ardaloedd gwledig
  - Ymgysylltu â'r gymuned - creu grwpiau ffocws yn y dref er mwyn cael adborth. Mae trefi'n nerfus am ormod o dwristiaeth yn yr ardal, e.e. AirB&B.
  - Gwahodd aelodau allweddol o adrannau perthnasol yn CBSC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni fel bod modd i ni nodi bylchau a bod â man cychwyn clir
- Cytuno â'r uchod. Mae angen i ni fesur llwyddiant yr hyn rydym ni'n ei wneud a bod ag agenda clir. Mae angen i ni wybod beth yw cynlluniau CBSC dros y pum mlynedd nesaf o ran isadeiledd. Yn erbyn hynny, gallwn ganfod disgwyliadau cwsmeriaid trwy arolygon. Byddai hyn yn nodi bylchau o ran twristiaeth a nodau CBSC.
- Mae angen i ni ddenu ymwelwyr gwerth uwch a rhagor o bobl i aros dros nos yn hytrach nag ymwelwyr dydd
- **Beth yw'r grant poblogaeth uwch**? Byddai hyn yn rhoi arwydd o ba adnoddau gallem eu defnyddio gan CBSC oherwydd mae i gyd yn gysylltiedig â'r cynnydd o ran nifer ymwelwyr yn yr haf. Ni ddylid gwanhau hyn yng nghyllideb gyffredinol CBSC. Mae'n bosibl y bydd Gwynedd yn cyflwyno treth ymwelwyr. GWEITHREDU - JM i ddarparu gwybodaeth
- Cynhaliodd un brifysgol arolwg canfyddiadol yn ddiweddar. Roedd yr ymwelwyr rhwng 8 a 12 oed wedi siomi nad oedd rhagor o ddreigiau! Dylem fanteisio ar ddreigiau fel thema/masgot.

**Cytunwyd ar y canlynol hefyd.**

- **Hyblygrwydd** - dylai'r grŵp fod yn hyblyg er mwyn gwahodd ymwelwyr i'r cyfarfodydd os yw hynny'n berthnasol i'r agenda
- **Cyfeiriadau e-bost** - roedd yr aelodau'n hapus i rannu eu cyfeiriadau e-bost
- **Iaith** – cytunwyd y byddai'r cofnodion yn dderbyniol yn Saesneg yn unig, oni bai eu bod yn cael eu rhannu â'r cyhoedd
- **Cyfrinachedd** – mae'r cyfarfodydd yn gyfrinachol fel bod modd i aelodau rannu eu barn yn ddiogel
- **Aelodau ychwanegol** – GWEITHREDU – JM i wahodd cynrychiolydd o AFfCh CBSC neu'r Grŵp Mannau Agored
- **Hyrwyddo gwaith Cyrchfan Conwy** i gynulleidfa ehangach trwy gronfa ddata busnes CBSC, gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
- **Cymuned leol** – dywedodd JM mai cyfeiriad twristiaeth yw rhoi'r gymuned leol wrth wraidd twristiaeth. Mae Conwy'n dilyn briff gwylio ar hyn o bryd. Cyrchfan Conwy i gynnwys cymunedau lleol.
- **Amlder cyfarfodydd** – ail gyfarfod ar ddechrau mis Ebrill i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl. Cyfarfodydd misol dros y chwarter nesaf yna adolygu. GWEITHREDU - JM i gydlynu dyddiadau gydag AO
- **Cynrychiolwyr CBSC** – byddant ar gael bob amser i gydlynu, hwyluso a chymryd cofnodion mewn cyfarfodydd

- **Aelodau nad ydynt yn gallu mynychu** – gallant gyfrannu trwy e-bost neu trwy gyfarfod â'r Cadeirydd yn unigol o bosibl.

KN
10.01.22.